Cofnodion Pwyllgor Cynllunio a Materion Cyffredinol Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd ar Nos Fercher y 14eg o Fedi 2011 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 7.00yh.

Presennol: Y Maer, y Cyng. Julia Jones, y Cyng. Edward Thomas (cadeirydd), y Cyng. Richard Wallace, y Cyng. Dawn Wallace, y Cyng. Colin Jenkins, y Cyng. David Williams, y Cyng. Fran Murphy, y Cyng. Christopher Parish
Roger Phillips (Clerc y Dref)
Des Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau: Y Cyng. Roy Davies

Cof 138 / Medi / 11 Ceisiadau cynllunio i'w penderfynu

E/25160 Altradau i gais presennol E/23640 (bloc stablau). Altradau fel a ganlyn:- Ailosod y ffenest bresennol yn nhalcen y Gogledd Orllewin, adleoli ffenestri velux. Ychwanegu ac adleoli ffliwiau boeler i'r bloc stablau yn y King's Head.
Sylw: Doedd dim arsylwadau

E25275 Dymchwel rhes o garejys a gwahanu garej ddwbl. Adeiladu annedd un llawr gyda 3 ystafell wely, ynghyd â chyfleusterau parcio. Adeiladu 3 garej gydag ystafelloedd hobi ynghlwm. Adleoli'r fynedfa bresennol i'r safle ar dir tu ôl i 49,51,53 Stryd Rhosmaen.
Sylw: Doedd dim gwrthwynebiad a byddai'r cynlluniau'n gwella'r safle presennol. Croesawyd y ffaith y byddai cynnyrch ecogyfeillgar yn cael eu defnyddio.

Cof 139 / Medi /11 Penderfyniadau ynghylch Ceisiadau Cynllunio

E/24684 Gosod 2 uned cyddwyso ac addurniadau newydd a rendro'r waliau ffrynt ac ochr yn 46, Stryd Rhosmaen.
RHODDWYD

E/24798 Estyniad dau lawr yn 30, Heol Caerfyrddin.
GWRTHODWYD.

E/24881 Newid y defnydd a wneir o fflat uwchben siop i fod yn estyniad i siop gemwaith, gyda gweithdy gemwaith uwchben y siop yn 1A, Stryd Caerfyrddin.
RHODDWYD

E/24895 Newid y defnydd a wneir o uned fanwerthu i gaffi ar lefel gwaelod 101, Stryd Rhosmaen
RHODDWYD

E/24899 Gosod 1 uned ddwbl gludadwy o lety dros dro at ddefnydd addysgu yn Y Ysgol Teilo Sant
RHODDWYD

Cof 140 / Medi /11 Doedd dim Ceisiadau Cynllunio a dynnwyd yn ôl

Cof 141 / Medi / 11 Doedd dim Apeliadau Cynllunio

Cof 142 / Medi /11 Mater yn ymwneud â Thrafnidiaeth a Phriffyrdd

1. Gofynnwyd i'r Clerc i ysgrifennu at Mr John McEvoy, Rheolwr Traffig CSG, mewn perthynas â'r rhwystr a achosir gan nifer o geir sy'n parcio tu allan i'r Eglwys ar Stryd Rhosmaen. Roedd y cerbydau yma'n achosi tagfeydd yn un o'r ardaloedd ble y nodwyd bod yna Lygredd Aer uchel.
2. Llythyr oddi wrth Jeffrey Price, Swyddog Ffyrdd a Phrosiectau Llywodraeth Cymru, mewn perthynas ag ymateb y Cyngor i adroddiad Ansawdd Aer CSG. Roedd y Llywodraeth yn disgwyl y cynllun gweithredu oddi wrth CSG.
3. Llythyr oddi wrth Carl Sargeant, Gweinidog Llywodraeth Cymru, yn datgan y byddai'n llunio rhestr o flaenoriaethau gwella Ffyrdd newydd erbyn yr Hydref. Roedd hyn mewn ymateb i lythyr y Clerc yn gofyn i ffordd osgoi Llandeilo i gael ei thrin fel angen brys.

Cof 143 / Medi / 11 Materion yn ymwneud â Goleuadau.

Adroddodd y Cyng. Richard Wallace bod y golau stryd tu allan i'r siop iechyd ynghyn drwy'r amser. Nodwyd.

Cof 144 / Medi / 11 Adroddiad y Swyddog Technegol

Cyflwynodd Mr Davies ei adroddiad i'r pwyllgor.
Gofynnwyd i'r Clerc i ysgrifennu at Caroline Ferguson, Swyddog Hawliau Tramwy CSG, mewn perthynas â'r gwaith a addawyd ar lwybr troed 69/1, ond sydd heb gael ei gwblhau eto.
Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â'r isdyfiant sy'n tyfu mewn gwahanol rannau o'r prif faes parcio.
Gofynnwyd i'r Clerc i ysgrifennu at wasanaethau stryd CSG, mewn perthynas â'r angen i ymdrin â'r mater hwn, ynghyd â gosod estyll newydd yn lle'r rhai sydd ar goll ar y fainc, ac i glirio'r annibendod a achoswyd gan ysmygwyr tu allan i swyddfeydd CSG. Gwnaethpwyd sylw y dylai CSG ddefnyddio peth o'r incwm sy'n cael ei gynhyrchu o ffioedd parcio i wella'r ardal.

Cof 145/ Medi /11 Canmlwyddiant Pont y Brenin

Rhoddodd y Clerc adroddiad ar y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 17eg o Awst 2011 gydag Eirian James, Rheolwr Hawliau Tramwy CSG, mewn perthynas â chynnydd y cais am arian i wella Pont y Brenin.
Nid oedd Mr James yn medru dod o hyd i gronfa addas a fyddai'n briodol i dalu am gyfanswm cost y cynllun. Roedd yn gobeithio y gallai gyflwyno cais a fyddai'n tynnu arian o wahanol botiau o arian. Byddai'r Clerc yn cynnwys llythyrau o gefnogaeth oddi wrth wahanol fudiadau yn y Dref gyda'r cais.

Cof 146 / Medi /11 Gohebiaeth

1. Adolygu gorsafoedd pleidleisio. Cytunodd y Cyngor bod y Neuadd Ddinesig yn addas iawn i'w defnyddio fel gorsaf bleidleisio.

2. CS Philip Hughes, Aelod o Fwrdd Gweithredol yr Amgylchedd, yn gofyn am gyfarfod i drafod cynllun y ffordd osgoi gyda'r Cynghorau Tref a Chymuned lleol. Byddai'r Clerc yn ateb yn cytuno i'r fath gyfarfod.
3. Copi o lythyr a anfonwyd gan Mark Bennett at Ieuan Jones yn gwrthwynebu datblygiad Sainsbury's. Nodwyd.
4. Copïau o lythyrau oddi wrth Jonathan Edwards AS a Rhodri Glyn Thomas AC at Mark James Prif Weithredwr CSG, yn cefnogi cais y Cyngor Tref am ffordd osgoi.

Cof 147 / Medi / 11 Eitemau arall o fusnes yr oedd y Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau arbennig, yn dymuno eu hystyried fel mater o frys, yn unol ag adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972

Byddai'r Cyng. Charlotte Leadbeater yn ymchwilio p'un ai bod deddf o 1814 yn dal i fod mewn grym, mewn perthynas â rhwymedigaeth yr Awdurdod Lleol i reoli fermin yn y gymuned.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.50yh.